# Cwricwlwm i Gymru
# Canllaw ar gynllunio a blaenoriaethau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

## Bydd ysgolion a lleoliadau yn dechrau addysgu gyda'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022.

Mae angen i ysgolion a lleoliadau gynllunio cwricwlwm yn unol â Chanllawiau Cwricwlwm i Gymru, a gallant fanteisio ar y prosesau a'r cwestiynau allweddol a amlinellir yn y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm er mwyn llywio eu gwaith cynllunio.


### Fideos: Beth yw'r Cwricwlwm i Gymru?




Mae addysg yn newid




Beth sy'n wahanol am y Cwricwlwm i Gymru?




Y Cwricwlwm i Gymru – animeiddiad esboniadol

**Mae'r pecyn hwn yn cynnwys canllawiau byr, cwestiynau allweddol, a mwy o ddeunydd darllen i'ch helpu gyda'r pynciau canlynol:**

- Cynllunio eich cwricwlwm
- Cynnydd
- Asesu
- Dysgu Proffesiynol
- Y Rhwydwaith Cenedlaethol

**Bydd ysgolion a lleoliadau ar wahanol bwyntiau ar eu taith ddiwygio – mae'r pecyn hwn yn adlewyrchu hynny ac yn darparu ystod o gynghorion i wneud y canlynol:**

1. Eich helpu i ddeall canllawiau Cwricwlwm i Gymru a'u defnyddio'n effeithiol yn eich ysgol
2. Helpu eich timau yn yr ysgol i gymryd rhan yn y broses o gynllunio'r cwricwlwm
3. Ystyried y cynnydd rydych wedi'i wneud hyd yma, eich camau nesaf, ac o ble y gallwch gael rhagor o gymorth

# Meddwl am eich taith

Mae'r cwestiynau hyn, sy'n seiliedig ar bynciau'r pecyn hwn, yn rhoi cyfle i chi fyfyrio ar y gwaith rydych wedi ei wneud i ddatblygu'r cwricwlwm hyd yma.

Gallwch ddefnyddio'r cwestiynau hyn i ystyried eich cynnydd a'r hyn yr hoffech ei ystyried yn fanylach efallai. Mae'r adrannau canlynol yn cynnwys canllawiau, cwestiynau, a deunydd darllen a fydd yn helpu i lywio eich camau nesaf, ynghyd â nodi lle gallwch chwilio am gymorth pellach.

## Blaenoriaethau ar gyfer datblygu Cwricwlwm

### Cynllunio eich cwricwlwm

- A ydym wedi ystyried y pedwar diben yn ein gweledigaeth, ein polisïau, ein cynlluniau a'n harferion? A ydynt yn gydnaws â'n blaenoriaethau ar gyfer dysgu ac addysgu?
- A yw'r holl staff sy'n gweithio i mi yn rhannu ein gweledigaeth ar gyfer diwygio'r cwricwlwm?
- A ydw i wedi sefydlu diwylliant o newid – a yw pob aelod o staff yn cymryd rhan yn y broses hon?
- A ydw i'n gwbl ymwybodol o'r ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r codau sy'n ffurfio'r fframwaith statudol, ac a ydw i wedi sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried ym mhob rhan o'r broses gynllunio?

### Cynnydd

- A ydym wedi ystyried pa wybodaeth, sgiliau a phrofiadau fydd yn helpu ein dysgwyr i wneud cynnydd drwy'r cwricwlwm? Sut y dylai'r rhain gael eu trefnu?
- A yw fy staff yn deall yr egwyddorion cynnydd a'r hyn y maent yn ei olygu?
- A oes dealltwriaeth a rennir o'r hyn y dylai cynnydd ei olygu ar gyfer y dysgwyr yn fy ysgol?
- A ydym wedi gweithio gydag ysgolion eraill yn ein clwstwr, neu'n ehangach, i sicrhau dealltwriaeth a rennir o gynnydd?

### Asesu

- A ydym wedi ystyried sut y gall ein dulliau asesu adeiladu ar ein dull o gynllunio'r cwricwlwm a chynnydd a'i gefnogi?
- A yw ein dulliau asesu yn cefnogi'r dibenion asesu a nodir yn y canllawiau?
- A ydym wedi gweithio gydag ysgolion eraill yn ein clwstwr, neu'n ehangach, wrth ddatblygu ein trefniadau asesu?

## Dod o hyd i gymorth ychwanegol

### Dysgu Proffesiynol

- Gyda phwy y mae angen i ni weithio er mwyn cefnogi ein taith dysgu proffesiynol?
- Pa gymorth lleol, rhanbarthol a chenedlaethol rydym yn ei ddefnyddio?
- Beth yw ein hanghenion dysgu proffesiynol? Sut gallant fynd i'r afael â hwy?
- Sut y byddwn yn sicrhau bod ein haddysgeg a'n harferion yn parhau i wella er mwyn cefnogi'r cwricwlwm i bob dysgwr?
- Sut y byddwn yn parhau i ddatblygu ein hysgol fel sefydliad sy'n dysgu yn ogystal â'n cwricwlwm?

### Rhwydwaith Cenedlaethol

- A oes meysydd penodol y byddai'n fuddiol eu trafod ag amrywiaeth ehangach o ymarferwyr er mwyn rhannu ein meddylfryd a chlywed mwy o syniadau?
- A oes rhwystrau, heriau, neu gyfleoedd penodol y gallem eu rhannu?
- A ydym yn defnyddio'r Rhwydwaith Cenedlaethol er mwyn helpu i adnabod a goresgyn heriau a rhwystrau?

# Cynllunio eich cwricwlwm

Cwricwlwm ysgol yw **popeth** y bydd dysgwr yn ei brofi wrth gyflawni'r pedwar diben. Nid dim ond yr hyn rydym yn ei addysgu sy'n bwysig, ond sut rydym yn ei addysgu ac, yn hanfodol, pam ein bod yn ei addysgu.


Dylai fod diben clir i'r holl waith o ddatblygu'r cwricwlwm. Mae dealltwriaeth glir o ddiben dysgu a pham mae gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau penodol yn bwysig yn helpu i roi ffocws i'r gwaith o gynllunio cynnydd a dysgu ac addysgu.

## Dechrau arni: mae Cwricwlwm i Gymru, a arweinir gan ddibenion, yn gofyn i chi ystyried y canlynol:

- A ydym yn deall anghenion ein dysgwyr?
- A oes gennym ddarpariaeth sy'n galluogi pawb i fod yn ddysgwyr mwy effeithiol?
- A ydym wedi cynnwys rhanddeiliaid yn ein gwaith cynllunio?

- A ydym wedi ymdrin â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig?
- A ydym wedi ystyried sut y byddwn yn defnyddio'r cysyniadau a'r elfennau gorfodol er mwyn cynllunio dysgu sy'n galluogi dysgwyr i wneud cynnydd?
- A fydd ein meddwl yn ystod y broses gynllunio yn ein galluogi i gyflawni ein gweledigaeth?

- Beth ddylai ein dysgwyr ei ddysgu a pham?
- Sut y dylem addysgu hynny? Sut olwg dylai fod ar gynnydd yn y dysgu hwnnw ei dilyn?
- Sut ydym yn cynllunio ar gyfer dealltwriaeth dysgwyr sy'n galluogi ehangder a dyfnder o ran gwybodaeth a soffistigedigrwydd cynyddol o ran sgiliau?
- Sut y dylem asesu'r cynnydd hwnnw?




### Mae cynllunio'r cwricwlwm yn broses barhaus a chylchol o ymgysylltu, dylunio, cynllunio, treialu a gwerthuso.

Mae hwn yn ddull iteraidd: Nid ydych yn anelu at 'gynnyrch' a gaiff ei gyflenwi ar y diwrnod cyntaf. Bydd eich cwricwlwm yn parhau i esblygu er mwyn diwallu anghenion eich dysgwyr chi a'u galluogi i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben.

Mae Cynllunio eich Cwricwlwm yn nodi egwyddorion cyffredinol ar gyfer dylunio ym mhob maes – gan ddechrau gyda datblygu gweledigaeth ar gyfer eich cwricwlwm.

Dylai'r y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm lywio ac ategu eich cynllunio. Mae'n cynnwys:

- Blaenoriaethau ar gyfer datblygu cwricwlwm
- Disgwyliadau a rennir ar gyfer gwireddu cwricwlwm
- Gwaith a chwestiynau allweddol ar gyfer ysgolion ar draws pob cyfnod o gynllunio

## Rhagor o wybodaeth

### Ym mhle mae eraill wedi dechrau ar eu taith i gynllunio'r cwricwlwm?

Mae enghreifftiau o sut mae pobl wedi mynd ati i gynllunio mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ac ysgolion arbennig ar gael i'ch helpu i ddechrau arni.

**Mae'r teithiau eraill a rannwyd yn cynnwys:**

- Gwireddu gweledigaeth
- Datblygu cwricwlwm o brofiadau i wella, cyffroi ac ennyn diddordeb

### Cymorth gan Wasanaethau Gwella Ysgolion ac Estyn

Defnyddiwch y cymorth a gynigir gan eich gwasanaeth gwella ysgolion ac adroddiadau thematig a gweminarau Estyn ar yr hyn sy'n gweithio'n dda.

### Y Rhwydwaith Cenedlaethol

Trafododd y Rhwydwaith y broses o baratoi ar gyfer y cwricwlwm yn ystod hydref 2021. Mae'r adnoddau a ddeilliodd ohono yn cynnwys:

- Sut mae ysgolion wedi mynd ati i lunio cwricwlwm
- Estyn – canfyddiadau ar sut mae ysgolion wedi goresgyn heriau
- Sut mae consortia rhanbarthol yn cefnogi ysgolion gyda'r cwricwlwm

**Cofrestrwch ar gyfer sgwrs nesaf y Rhwydwaith ar gynllunio'r cwricwlwm yma.**

# Cynnydd

**Mae cynnydd mewn dysgu yn broses o ddatblygu dyfnder cynyddol, soffistigeiddrwydd, diddordeb a rheolaeth dysgwyr dros amser, yn hytrach na chorff o gynnwys i'w gyflwyno. Dylai cynnydd o ran y dysgu fod wrth wraidd y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm bob amser, yn hytrach na dechrau gyda thema a threfnu dysgu o amgylch hynny wedyn.**

**Dylai cynnydd fod wrth wraidd y broses o ddatblygu gweledigaeth ysgol.**

## Dechrau arni: datblygu eich dealltwriaeth o gynnydd

**Fideo:**
Pam mae cwricwlwm a arweinir gan ddibenion ac un sy'n seiliedig ar gynnydd mor arwyddocaol?

**Canllawiau:**
Sut mae'r egwyddorion cynnydd, y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r disgrifiadau dysgu yn plethu â'i gilydd?

Mae'r egwyddorion cynnydd yn ymwneud â chynnydd ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Mae yna egwyddorion cyffredinol ac egwyddorion ar gyfer pob Maes. Dylech ystyried y ddau yn ofalus.

Y 27 o ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig yw'r sail i gynnydd dysgwyr drwy gydol y Cwricwlwm i Gymru a'r continwwm dysgu 3 i 16.

Mae'r disgrifiadau dysgu yn disgrifio'r cynnydd y dylai dysgwyr ei wneud mewn perthynas â phob datganiad. Mae'r camau cynnydd yn trefnu'r disgrifiadau dysgu er mwyn darparu pwyntiau cyfeirio ar gyfer cynnydd dysgwyr 3 i 16 oed.

Dylai'r tair elfen hyn lywio'r gwaith o ddewis a threfnu cynnwys cwricwlwm ym mhob maes.

### Mae dealltwriaeth a rennir o gynnydd yn golygu bod ymarferwyr - mewn ysgol, ac yn ehangach – yn deall:

- Eu **disgwyliadau** a rennir ar gyfer sut y dylai dysgwyr wneud cynnydd a sut mae **gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau** yn cyfrannu at hyn
- Sut mae sicrhau **cynnydd cydlynol** ar gyfer dysgwyr drwy eu taith ddysgu ac yn benodol mewn cyfnodau pontio
- Sut mae'r disgwyliadau hyn yn cymharu â disgwyliadau ysgolion a lleoliadau eraill, i sicrhau **cydlyniant, tegwch a chyflymder a her ddigonol**

Mae angen ichi ymgymryd â sgyrsiau sydd **wedi'u strwythuro a'u hwyluso** – yn eich ysgol (ar lefelau amrywiol), ar draws y clwstwr, a chydag ymarferwyr y tu allan i'ch clwstwr – i ddatblygu'r ddealltwriaeth hon.

### Mae cynnydd wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru.

Dylai'r broses o gynllunio'r cwricwlwm bennu pa wybodaeth, sgiliau a phrofiadau a fydd yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd yn y tymor byr a thros amser, a sut y dylid trefnu'r rhain.

Mae datblygu dealltwriaeth a rennir o gynnydd yn hollbwysig er mwyn sicrhau cydlyniant, prosesau pontio hwylus, a chyflymder a her briodol ar draws ysgol neu glwstwr.

Mae **Cefnogi Cynnydd Dysgwyr** yn nodi pwysigrwydd datblygu dealltwriaeth a rennir o gynnydd; a chynghorion ymarferol ar sut i gynnal y trafodaethau hynny

## Rhagor o wybodaeth

### Deunydd darllen i gefnogi trafodaeth

- IEAN – Rethinking Learner Progression for the Future
- Taith dysgu proffesiynol – datblygu gweledigaeth ysgol gyfan a rennir

Mae Hwb yn cynnwys **astudiaethau achos** gan y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol ar **ddeall cynnydd a chynllunio ar ei gyfer** mewn cyd-destunau cynradd ac uwchradd.

### Y Rhwydwaith Cenedlaethol

Gweler yr adnoddau a'r pecyn hwyluso er mwyn cael sgwrs am Gynnydd yn eich ysgol

Bydd gwaith dadansoddi, adborth ac allbynnau'r sgwrs a gafwyd am gynnydd yn ystod hydref 2021 ar gael ar dudalen y Rhwydwaith Cenedlaethol erbyn diwedd **tymor y gwanwyn**.

### Camau i'r Dyfodol

Bydd y prosiect hwn yn helpu i feithrin gallu ar draws y system gyfan ym maes cynnydd dysgwyr ac yn helpu i sicrhau newid cynaliadwy.

Bydd gan ysgolion ledled Cymru fynediad at sesiynau a gyflwynir drwy'r Rhwydwaith Cenedlaethol o fis Mai 2022 ymlaen.

Bydd mwy o wybodaeth am sut i gymryd rhan yn cael ei chyhoeddi y tymor hwn.

## Asesu

**Mae asesu yn chwarae rhan sylfaenol wrth alluogi pob dysgwr i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau y caiff ei gefnogi a'i herio yn unol â hynny. I asesu'n effeithiol mae hi'n ofynnol cael dealltwriaeth glir o ddiben y dysgu a'r cynnydd disgwyliedig. Rôl asesu yw:**

**01** cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd

**02** pennu cynnydd dysgwr unigol dros amser, llunio darlun ohono, a myfyrio arno

**03** deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion


## Dechrau arni: diben asesu yn y Cwricwlwm i Gymru

Crynodeb: Beth sy'n newid o ran asesu?

**Mae Cefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllawiau Asesu yn nodi diben ac egwyddorion allweddol asesu a'r tair proses ganlynol:**

- datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd
- cefnogi taith dysgwyr ar hyd y continwwm 3 i 16
- cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni a gofalwyr

Wrth i chi ddatblygu ffyrdd o lunio darlun o gynnydd unigolion a grwpiau dros amser a myfyrio arno – ystyriwch hyn fel rhan o ystod ehangach o ddulliau hunanwerthuso, ac yn eich trafodaethau i gefnogi dealltwriaeth a rennir o gynnydd. Sut y gallech fynd i'r afael â hyn?




### Mae asesu yn rhan hanfodol o gynllunio'r cwricwlwm ac addysgeg.

Datblygwch eich trefniadau asesu fel rhan o'ch proses cynllunio cwricwlwm, yn seiliedig ar eich dealltwriaeth o gynnydd a'r cynnydd sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y dysgwyr.

**Wrth ddatblygu trefniadau asesu, dylech ystyried y canlynol:**

- **Ehangder a dyfnder**
- **Dulliau asesu gwahanol**
- **Sut y byddwch yn deall cynnydd eich dysgwyr dros amser**

Dylai asesu ganolbwyntio ar ddefnyddio tystiolaeth o ddealltwriaeth a chynnydd, wrth i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau ac ymgymryd â phrofiadau. Defnyddiwch y disgrifiadau dysgu ym mhob maes i'ch helpu i ddatblygu ystod eang o ddulliau asesu i gasglu tystiolaeth o ddysgu a chanfod cynnydd.

Bydd dulliau asesu penodol yn dibynnu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau sy'n cael eu datblygu ac ar anghenion eich dysgwyr.

### Mae cymwysterau'n newid.

Bydd eich cwricwla newydd chi a'n cymwysterau newydd ni a lunnir yng Nghymru yn cael eu hadeiladu o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Os ydych yn datblygu eich cwricwlwm, rydych eisoes yn paratoi ar gyfer y cymwysterau.

## Rhagor o wybodaeth

Ewch ati i wneud gwaith **dysgu proffesiynol** er mwyn dyfnhau eich dealltwriaeth o asesu a dulliau asesu

### Asesu ar gyfer y Dyfodol:

Bydd cyfres o weithdai ar ddatblygiad proffesiynol gyda CAMAU ar gael yn yr haf i gefnogi eu gwaith i ddatblygu trefniadau asesu fel rhan o'u cwricwlwm.

### Mae adnoddau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu trefniadau asesu ar gael ar Hwb:

- Astudiaethau achos cefnogi cynnydd dysgwyr
- Gwybodaeth am asesiadau personol ar-lein ym maes darllen a rhifedd
- Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol: Asesu a Chynnydd
- Lles dysgwyr ac asesu – George MacBride
- Blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm – Y daith i weithredu'r cwricwlwm

**Dysgu Proffesiynol**

**Credwn y dylai pob cynorthwyydd addysgu, athro ac arweinydd yng Nghymru ddeall yn glir yr hyn y mae ganddynt hawl iddo o safbwynt Dysgu Proffesiynol, a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt yn gyfnewid am yr hawl hon. Bydd yr Hawl Dysgu Proffesiynol Genedlaethol, sy'n cael ei chyd-datblygu ar hyn o bryd, yn nodi hawliau a disgwyliadau ein system ar gyfer pob cynorthwyydd addysgu, athro ac arweinydd. Bydd rhagor o fanylion ar gael ddiwedd mis Mawrth a bydd yr Hawl yn cael ei lansio ym mis Medi.**

## Hawl Dysgu Proffesiynol Genedlaethol

**Bydd yr Hawl Dysgu Proffesiynol Genedlaethol yn helpu'r proffesiwn addysg yn ei gyfanrwydd i wneud y canlynol:**

- Cefnogi blaenoriaethau ein system, yn benodol y blaenoriaethau cyflwyno'r cwricwlwm a diwygiadau ehangach a gwella cydraddoldeb drwy addysg
- Manteisio ar fynediad cyfartal i gyfleoedd Dysgu Proffesiynol, ni waeth beth fo'u hiaith, eu lleoliad, eu rôl yn yr ysgol, eu pwnc mewn ysgolion uwchradd, a ph'un a ydynt yn weithwyr llawn amser, yn weithwyr rhan amser neu'n weithwyr cyflenwi
- Manteisio ar ddarpariaeth a chymorth o'r ansawdd uchaf
- Cael gafael yn hawdd ar y ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael iddynt yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol
- Ymgymryd â gwaith ymholi a chael cymorth drwy hyfforddi a mentora

## Cyfleoedd ac adnoddau cenedlaethol

| Adnoddau ar Hwb | Digwyddiadau mewnwelediad polisi | Trafod Addysgeg – y gymuned ar-lein genedlaethol | Rhaglenni Ymholi Cenedlaethol |
|---|---|---|---|
| Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu<br>Taith Dysgu Proffesiynol<br>Taith Dysgu Proffesiynol Ddigidol | Cyfres o ddigwyddiadau yw'r rhain i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymarferwyr a phartneriaid am ddatblygiadau polisi ym maes dysgu proffesiynol. | Lle i siarad ac ystyried ystod amrywiol o ddulliau addysgeg yng nghyd-destun cwricwlwm a arweinir gan ddibenion. | Cyfleoedd ymholi ar y cyd sy'n ystyried cynllunio cwricwlwm, addysgeg, asesu ac ystod o feysydd eraill yn y cyd-destun lleol. |

## Y rhaglen Dysgu Proffesiynol genedlaethol a gaiff ei rhoi ar waith yn rhanbarthol

Mae'r rhaglen gyffredinol hon, a gaiff ei rhoi ar waith yn rhanbarthol gan wasanaethau gwella ysgolion y consortia, yn cynnwys:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Datblygu gweledigaeth ar y cyd<br>Beth yw cwricwlwm a arweinir gan ddibenion?<br>Datblygu'r cwricwlwm fel sefydliad sy'n dysgu<br>Ymgysylltu â chanllawiau'r cwricwlwm | Arwain addysgeg<br>Arwain diwylliant o newid<br>Cyflwyniad i gynllunio cwricwlwm<br>Cynllunio a datblygu cwricwlwm | Creu lle ac amser ar gyfer dysgu proffesiynol<br>Ystyried addysgeg<br>Deall cynnydd a chynllunio ar ei gyfer<br>Cynllunio tymor canolig a hirdymor | Asesu<br>Sgiliau trawsgwricwlaidd<br>Themâu trawsgwricwlaidd<br>Cysylltiadau o fewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad |

## Lefel Ranbarthol – rhaglenni penodol i gefnogi ysgolion yn lleol

| Central South Consortium | GwE | Education Achievement Service | Mid Wales Education Partners | Partneriaeth | Neath Port Talbot |
|---|---|---|---|---|---|

# Rhwydwaith Cenedlaethol

**Mae'r Rhwydwaith Cenedlaethol yn dod â gweithwyr addysgu proffesiynol, arbenigwyr, rhanddeiliaid, gwneuthurwyr polisi a phartneriaid galluogi, gan gynnwys consortia rhanbarthol ac Estyn, at ei gilydd er mwyn adnabod y cyfleoedd a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith**

## Beth yw'r Rhwydwaith Cenedlaethol?

Mae'r Rhwydwaith Cenedlaethol yn galluogi pob ymarferydd i ymgymryd â gwaith cyd-greu dulliau sy'n datblygu yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol, er mwyn goresgyn y rhwystrau sy'n eu hwynebu nhw a'u dysgwyr.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn ogystal â rhoi amser a lle i ymarferwyr fyfyrio ar eu harferion a dysgu gan eraill, bydd sgyrsiau'n llywio'r ffordd y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn eich cefnogi gyda'r  Cwricwlwm i Gymru.

**Cymerwch ran yma.**

## Yng **ngwanwyn 2022**, bydd y Rhwydwaith yn cynnal sgyrsiau ar y canlynol:

- Hanes Cymru, gan gynnwys hanes Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- cynllunio cwricwlwm
- diwygio cymwysterau

**Gallwch weld deunyddiau hwyluso, a fideos o sgyrsiau blaenorol yma.**

## Gallwch weld deunyddiau hwyluso, a fideos o sgyrsiau blaenorol yma. Mae hyn yn cynnwys:

- cynnydd
- paratoi ar gyfer y cwricwlwm - a ydym ar y trywydd iawn?
- adnoddau a deunyddiau ategol

**Gallwch gymryd rhan ar lefel genedlaethol neu ranbarthol, a defnyddio'r deunyddiau ar gyfer sgyrsiau yn eich lleoliad eich hun.**

## Bydd y Rhwydwaith Cenedlaethol yn nodwedd barhaol o waith cyd-greu ymarferwyr.

Bydd yn sicrhau bod lleisiau ymarferwyr yn cael eu clywed wrth lunio polisïau a bydd yn sicrhau bod ein cymorth yn ymateb yn well i'ch anghenion.

**Sgyrsiau'r Rhwydwaith Cenedlaethol:**

- casglu gwybodaeth a rhannu dealltwriaeth
- cyd-greu dulliau gweithredu
- cysylltu pobl
- ysgogi newid

## Rhagor o wybodaeth

**Bydd dadansoddiadau o sgyrsiau, deunyddiau a chrynodeb o'r hyn y byddwn yn ei wneud** mewn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd a drafodwyd yn ystod sgyrsiau hydref 2021, yn cael eu cyhoeddi yng ngwanwyn 2022 ar dudalen y Rhwydwaith Cenedlaethol.

**Dysgwch am yr hyn mae ymarferwyr wedi'i ennill o sgyrsiau'r Rhwydwaith Cenedlaethol:**

**Fideo 1**

**Fideo 2**

O fis Mai 2022 ymlaen, bydd **prosiect cynnydd Camau i'r Dyfodol** yn cynnal gweithdai drwy'r Rhwydwaith Cenedlaethol.

Bydd manylion ar gael ar dudalen y Rhwydwaith Cenedlaethol ar Hwb.